COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 5 MAWRTH 018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Kenneth Tams, Nick Smith, Rhian Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyng. Constance Atwill, David Ritchie a Bob Barton.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Y Clerc Gwyn Davies – eitem 11 ar yr agenda.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 5 Chwefror 2018 fel cofnod cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Cadarnhaodd yr Aelodau y bydd y Cyngor Cymuned yn gwneud cais ar gyfer y proses o gael cymorth grant o £13,900.00 tuag at y costau o £17,100.00 ar gyfer Eglwys Hynafol Sant Pedr yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.
B. Mae'r Cyng. Lyn Evans yn chwilio am ragor o ddyfynbrisiau ar gyfer "Baner Gyhoeddusrwydd i'r Pentref".
C. Ni fu cais am etholiad ar gyfer y sedd wag ar y Cyngor. Penderfynwyd gohirio cyd-opsiwn tan gyfarfod nesaf y Cyngor.
D. Cafwyd cadarnhad fod y llythyr ynglŷn Adroddiad Blynyddol Drafft – Chwefror 2018 y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) wedi'i gyflwyno.
E. Mae'r Cyng. Bob Barton yn y broses o gwblhau'r ffurflen gais "Gwobr Gymunedol Baner Werdd" ar gyfer Gardd Gymunedol Maes Derwen.

5. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL .
Dywedodd y Cynghorydd Tim Baker nad oes cynnydd pellach parthed cwblhau pryniant Y Griffin. Bydd yn rhoi adroddiad o'r sefyllfa yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

7. CINIO DYDD GŴYL DEWI.
Mae Cinio Dydd Gŵyl Dewi wedi ei symud i Ddydd Iau 8 Mawrth 2018 oherwydd iddo gael ei ohirio ar y 1af o Fawrth 2018 fel canlyniad o'r eira.

8. TIR RHWNG Y RHEITHORDY A BRAKENDENE, LON CAE GLAS.
Croesawodd y Cadeirydd gyd-berchnogion y tir rhwng y Rheithordy a Brakendene, Lon Cae Glas yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. Rhoddodd y perchnogion gais gwaith sy'n mynd rhagddo ar gyfer dogfen gyngor ar gais cyn cynllunio, gydag opsiynau ar nifer yr anheddau a defnydd y man gwyrdd ar y tir, yn ogystal â darparu troedffordd i gerddwyr. Byddai ymgynghori gydag Awdurdod Priffyrdd yr A494 (Llywodraeth Cymru) yn barod i gael mynedfa'r briffordd ar yr A494. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyd-berchnogion am fynychu'r cyfarfod. Byddai'n rhoi gwybod iddynt am sylwadau'r Cyngor maes o law. Cytunodd yr Aelodau i'r Clerc wahodd Rhiannon Dafydd o Grŵp Cynefin i gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod mater anghenion lleol ar gyfer tai ychwanegol yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.

9. DYLETSWYDDAU CYNGHORWYR.
A. Canolfan Gymunedol – Tim Baker.
B. Ysgol Llanbedr DC a'r Munchkins
C. Safle we – Constance Atwill.
D. Pwyllgor Sioe'r Pentref – Tim Baker.
E. Cynllunio – Nick Smith.
F. Gardd Gymunedol – Kenneth Tams.
G. Band eang – Bob Barton.

10. GRANTIAU CYNGOR CYMUNED.
Yn dilyn cais Pwyllgor Neuadd Bentref Llanbedr Dyffryn Clwyd am gymorth grant blynyddol o £ 500.00, penderfynodd yr Aelodau dderbyn y cais am gymorth grant.

11. CYFLOG Y CLERC.
Gadawodd y Clerc yr ystafell tra'r oedd yr Aelodau'n trafod yr eitem yma ar yr agenda. Yn dilyn cyfarfod diweddar rhwng y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc, penderfynodd yr Aelodau dderbyn argymhelliad i gynyddu cyflog y Clerc i £ 2,200.00 o 1 Ebrill 2018.

12. BAND EANG.
Dywedodd Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams y bydd cyfarfod o Gyngor Sir Ddinbych ar 23 Mawrth 2018 i drafod mater band eang yn y Sir.

13. CYLLID.
A. A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol Nat West £3,936.38.
2. Cyfrif Cadw Nat West £9,328.18.
B. Talu biliau:-
1. Mrs Brenda E. Jones – cyfieithu cofnodion mis Chwefror.
2. Cyflog y Clerc am y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 - £ 360.00.
3. PAYE am y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 - £90.00.
4. Treuliau Clerc am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 - £ 537.00.
5. Tâl aelodaeth 2018/19 Un Llais Cymru - £127.00.

14. CAIS CYNLLUNIO.
Derbyniwyd cais cynllunio 16/2018/0107 ar gyfer gosod ffenestri newydd (Cais Adeilad Rhestredig ôl-weithredol) yn 3 Bathafarn Cottages, Llanrhydd – dim gwrthwynebiad.

15. GOHEBIAETH
A. Bydd "Cyfarfod Gwanwyn Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned" Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei gynnal ar Ddydd Llun 23 Ebrill 2018 ym Mharc Gwledig Loggerheads.
B. Cafodd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych i drafod cais am ganiatâd Llanbedr Dyffryn Clwyd ar gyfer y Ganolfan Gymunedol a drefnwyd ar gyfer 2 Mawrth 2018 ei ohirio i ddyddiad yn y dyfodol oherwydd y tywydd gwael.

16. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Dywedodd Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams y bydd taflenni'n cael eu dosbarthu i berchnogion cŵn yn ystod penwythnos y Pasg yn eu hysbysu i gadw eu cŵn ar dennyn drwy'r amser. Yn ogystal, bydd taflenni ar gyfer sbwriel i'w dosbarthu dros benwythnos Gŵyl Banc mis Mai. Cytunodd yr Aelodau i gynorthwyo'r Cyng. Williams i ddosbarthu'r taflenni.

17. UNRHYW FATER ARALL.

Trafododd yr Aelodau'r materion cymunedol diweddar:-

A: Priffyrdd wedi'u rhwystro'n ddiweddar oherwydd yr eira. Cysylltiadau ar gyfer gwasanaeth aradr eira yn ystod tywydd garw yn y dyfodol.

B. Tociau twrch daear ar y Man Gwyrdd Cymunedol ger Maes Derwen a defnyddio Swyddog Rheoli Plâu. .

18. CYFARFOD NESAF O'R CYNGOR – Dydd Llun 9 Ebrill 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.